

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU
SIR DDINBYCH 2022**



Rhif 132 – Grŵp Llefaru Bl 10 a dan 19 oed

WINNI FFINNI HADOG

Mae enaid ar y mynydd,
un o'r rhain sy'n byw yn rhydd
fel awel – un na weli
ar Lôn Wen ein heulwen ni.
Yn y grug mae geiriau hon
nawr i aros,
paid â gadael Winni a'i rhegi'n rhy agos.

Yn eithin gwyllt ei Phethe,
ar hen allt y tywallt te
ac ym marclod ei thlodi,
fe wna hon ei llwyfan hi;
a neb ond Winni ei hun –
neb yn gwybod –
am ddagrau, am dadau; ond hi a'i duwdod.

A anwyd hi'n frenhines?
Ni wêl hon 'run rhuban les,
er breuddwydio dawnsio'r daith
i weini i Lundain ganwaith;
diwylliant hosan dyllog,
di-ffril fel gwaelod ei ffrog,
yw'r un sy'n ei gyrru hi
yn hegar iawn i regi;
yn ei ffordd, mae'n clocsio'i ffydd
hen-ifanc o anufudd,
a'n chwipio, diawlio, nes dod
heibio i ni'n gydwybod.

Y mae enaid y mynydd – ynnddi hi,
a phan ddaw y stormydd
o gopa’r bryn derfyn dydd,
ni weli ei chywilydd:

a thra bydd ar ei gruddiau – y bawiach
gwyd o’i bywyd hithau,
y mae wylo’r cymylau
yno o hyd i’w glanhau.

KAREN OWEN

Cofiwch fynd draw i’ch llyfrgell lleol i ddarllen rhagor o gerddi Karen Owen yn ei chyfrol, Yn fy Lle.